YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 39. RHIF 7/8 RHAGFYR 2017 / IONAWR 2018 50c

# Galw heibio i'n cyfarch yn Lerpwl



*Cyfeillion ar dro. O'r chwith i'r dde: Parchedig Aneurin Owen, Llansannan, Dr. Vanal Chama, meddyg da yn Ysbyty Durtlang, Dr. D. Ben Rees, golygydd y clasur, Llestri Gras a Gobaith: Cymry a'r Cenhadon yn India, Mrs Zanidi Chama, athrawes yn Ysgol Uwchradd Durtlang ac Alan Lloyd, mab y diweddar genhadon, y Parchedig J. Meirion Lloyd a Mrs Joan Lloyd. Treuliwyd pnawn cyfan ym Methel a pharatodd Dr. Pat Williams a Dr. John G. Williams baned blasus i'n hymwelwyr.*



*Bob Morris o Benygroes, Dyffryn Nantlle, darlithydd profiadol ar hyd a lled Gwynedd. Awdurdod ar lu o bynciau.*



*Dr. Vanal a Zanidi Chama yn cael hanes cychwyn y Genhadaeth.*



*Carys Jones ac Anna Jane Evans o Gaernarfon. Ysgogodd pobl Bethel a Bethania, Lerpwl i gofio am gri trigiolion tlawd a gaiff gysur Corwynt Cariad eleni.*

**Lluniau o gamera Dr. John G. Williams**

**YN Y RHIFYN HWN -**


Golygyddol (Gofid am Glwb Pêl-droed Everton); Colofn y Myfyrwyr;
Cofio Ann Roberts ac Olwen Jones;
Cystadlaethau;
Taith i'r Ysgwrn; Nadoligau Lerpwl

*Cyfarchion y Tymor i bawb o ddarllenwyr Yr Angor oddi wrth y Golygydd, y Cadeirydd, Trysorydd a'r Ysgrifennydd a phob aelod o'r Pwyllgor Gwaith a Blwyddyn Newydd Dda am 2018*

Golygyddol

# GOFIDIO AM GLWB PÊL-DROED EVERTON – gan D. Ben Rees

Bu clwb pêl-droed Everton yn bwysig iawn yn hanes Cymry Lerpwl a deil felly i aml un o ddarllenwyr *Yr Angor* er fod clwb pêl-droed Lerpwl yn denu eraill ohonom i gefnogi. Everton yw'r hynaf o'r ddau a deilliodd y Clwb o gefndir capeli yr Eglwys Fethodistaidd a'i harweinwyr yr adeg honno. Y mae gan Everton hanes godidog dros y blynyddoedd a bu Cymry yn amlwg iawn ymhith y chwaraewyr. Deil Ashley Williams yno heddiw, ond cofir am gewri eraill, fel T. G. Jones, mae'n debyg y gorau ohonynt i gyd, ac yn agos ato Neville Southall o Llandudno. Pleidleisiwyd ef yn chwaraewr pêl-droed y flwyddyn yn 1984 ac fe anrhydeddwyd ef gan y Frenhines â'r MBE yn 1986. Chwaraeodd 578 o weithiau yn y Gynghrair dros Everton, saith deg o weithiau mewn gemau am y cwpan, tair gwaith ar ddeg yn Ewrop a naw deg o adegau eraill, cyfanwm o 1981 i 1998 o 751 o gemau. Cymro mawr ac un o sêr Everton sy'n pryderu fel ninnau am gyflwr y tîm yn nhymor 2017-18.



**Neville Southall**

Y mae chwarae'r tîm yr wythnosau diwthaf wedi peri siom a sioc. Y llynedd llwyddodd Ronald Koeman, y rheolwr i'w ysbarduno i chwarae yn dda. Hwy oedd y seithfed yn y gynghrair, heddiw y maent yn y gwaelodion. Haf eleni gwariodd y rheolwr £140 miliwn i gael chwaraewyr newydd a fyddai yn ei gefnogi gant y cant ac yn chwarae fel y mae Clwb Dinas Manceinion yn chwarae ar hyn o bryd. Ni all neb gystadlu â hwy. Maent yn gwbl glasurol ac nid oedd gobaith gan Lerpwl na Abertawe na Stoke ddod yn agos atynt. Sgorio 36 gôl mewn deg gêm, anhygoel a dweud y lleiaf.





**Parc Goodison**

Ond mae'n amlwg fod y brawd Koeman wedi gwastraffu'r cyfle a ddaeth iddo. Penderfynodd ddod a nifer o chwaraewyr tebyg i'w gilydd fel Gylfi Sigurdsson a Wayne Rooney, ac heb gofio fod angen ciciwr yn lle Romelu Lukaku. Fel canlyniad nid oes neb yn gallu sgorio, rhaid cofio fod Wayne Rooney bellach yn 31 oed ac yn ymddwyn y tu allan i Barc Goodison fel crwt gwyllt deunaw oed, ac yn gosod ei hun yn y newyddion am ddim byd i'w wneud a'i broffesiwn.

Meddyliwch am Clwb Dinas Manceinion a'r holl gicio nerthol gyda tîm Everton a sgoriodd dim ond saith gôl mewn naw gêm o Gynghrair y Premier, cynghrair gorau'r byd. Efallai y gellir dadlau fel y gwnaeth Paul Wilson yn yr *Observer*, fod y rheolwr wedi bod yn anlwcus gyda anafiadau chwaraewyr talentog. Dioddefodd Yannick Bolaise a Seamus Coleman anafiadau digon diflas. Bu'n anffodus hefyd i orfod chwarae tri tîm gorau y Deyrnas Unedig, dinas Manceinion, Manceinion Unedig (Manchester United i'r sgowser) a Chelsea yn y pum gêm cyntaf y tymor. Ond hyd yn oed wedyn anodd deall tacteg Koeman fel mae'n anodd ei ddeall ef yn siarad ar ddiwedd gêm yn *Match of the Day* (BBC1). Ni chafodd y gorau allan o Sigurdsson am iddo fethu a'i roi yn ei le prioddol fel rhif deg, ac mae'n amlwg ei fod ef yn gymysglyd dros ben yn ei feddwl yn dod a naw pêl-droediwr o'r meinciau i chwarae ar ôl y toriad. Digwyddodd hyn yn y pymtheg gêm diwethaf.

Mae'n amlwg na fu Koeman yn ddiddig fel rheolwr yn Goodison, ac yn ôl rhai sylwebyddion a ddarllenais, fel Joe Bernstein o *The Mail on Sunday* yr oedd ei ffordd o drin y chwaraewyr yn codi cwestiynau. Byddai'n caniatau i'r chwaraewyr cael bwyd yn y cantîn bob dydd ar ôl iddo ef a'i staff gael bwyta yn gyntaf, ac yn yr ymarfer, byddai'n sefyll yn ddigon pell oddi wrthynt hyd nes y gwelai ddiffyg yn chwarae un o'r pel-droediwr, ac yn byddai'n cyfarth ei awgrym. Nid rhyfedd fod rhai o'r tîm yn teimlo ei fod ef yn eu trin fel plant ysgol. Rhoddai Koeman yr argraff y mae aros am ychydig oedd ei gynllun, nes ei fod ef yn cael gwahoddiad i ymuno â Chlwb enwog Barcelona yn Catalonia (lle arall llawn trybini). Wedi'r cyfan bu yn chwarae am chwe blynedd i'r tîm hwnnw, a gwelir ar ei gar ar ffyrdd Lerpwl y llythrennau pwysig BAR! Ond ar ôl dweud y cwbl hyn cydymdeimlwn ag ef a phob rheolwr arall sydd ar drugaredd y cyfarwyddwyr a'r perchnogion a'r swyddogion sydd wrth y llyw. Os gall Claudio Ranieri gael y sac o Glwb Caerlŷr ar ôl ennill pencampwriaeth y Premier nid oes neb yn saff. Gwelodd olynydd Ranieri hynny yn Caerlŷr, Craig Shakespeare. Bu'n rhaid iddo yntau fynd ar ôl saith mis yn y swydd. A bellach mae Everton ar 23 Hydref 2017 wedi rhoddi'r sac i Ronald Koeman. Ar ôl llai na deg gêm y mae'r *Toffees* mewn gryn drafferth, ond nid yn anobeithiol. Rhaid deffro a sgorio goliau a ennill gemau i gadw ei lle yn y Premier League.

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw


Gyda thristwch clywsom am farwolaeth Miss Megan Roberts ar fore Sul, Hydref 1af. Hi oedd yr aelod hynaf yn Seion ac yn un o'r ffyddlonaf. Bu ei harwyl yng Nghapel Seion ar 23 Hydref o dan ofal y Parch Eleri Edwards. Bu'r ail wasanaeth yn Amlosgfa Landican. Daeth tyrfa dda i dalu'r gymwynas olaf i un o ragorolion y Deyrnas.

Mae rhai o'n haelodau yn glaf. Cafodd Mr. Terry O'Neill driniaeth ar ei lygaid a Mrs Eirina Roberts wedi cael glun newydd. Bu Mr. John Williams, Rainhill yn yr ysbyty am naw wythnos. Mae adref nawr ac yn gwella yn dda.

## Cymdeithas Cymry Lerpwl

Ar Nos Fawrth, Medi 19eg cafwyd noson bleserus yng nghartref Nan Hughes Parry i ddechrau tymor y Gymdeithas am 2017/18. Roedd digon o ddanteithion wedi eu paratoi ar ein cyfer. Cawsom amser i sgwrsio am ddigwyddiadau'r haf ac am Eisteddfod Ynys Môn. Diolch i Nan am yr holl baratoi. Dechrau da i'r tymor.

Y nos Fawrth ganlynol cafwyd noson ragorol yng nghwmni dwy chwaer o Ogledd Sir Benfro yn wreiddiol sef Beti Wyn Evans a Myron Lloyd. Mae'r ddwy yn awr yn byw yn Rhuthun. Cyflwynwyd hwy fel 'Dwy Lodes o Sir Benfro'. Hanes caneuon gwerin gawsom ni gan Myron. Soniodd am yr ymdrech fawr a wnaed gan rai fel Lady Herbert Lewis, Meredydd Evans ac eraill i gadw yr hen ganeuon yma yn fyw. Canodd sawl cân werin i ni fel 'Ble 'rwyt ti'n mynd, yr hen eneth ddu', 'Pan oeddwn gynt yn fachgen', 'Yr Hen Wyddeles' a rhai 'shantis'. Bu Myron yn cystadlu ar hyd ei hoes ac ennill llawer yn y Genedlaethol. Hoffter Beti Wyn yw adrodd ac yn arbennig gwaith beirdd Sir Benfro fel Waldo, Dewi Emrys a Crwys. Cawsom flas o'u gwaith ganddi fel 'Y Tangnefeddwyr', 'Melin Trefin' a 'Pwll Deri'. Noson gan ddwy wraig oedd a diddordeb mawr yn eu testun.



*Neville Hughes*

Ar nos Fawrth gyntaf mis Hydref daeth Neville Hughes atom. Yr oedd yn un o 'Hogia Llandegai'. Mae 60 mlynedd ers i'r hogia dechrau fel grŵp 'Sgiffyl Llandegai' yn 1957. Roedd wyth person yn y grŵp sgiffyl ac aeth y grŵp ymlaen hyd 1963 pryd y ffurfiwyd 'Hogia Llandegai'. Bu iddynt hwy gario ymlaen hyd 1973. Yna dechreuodd 'Triawd Llandegai' a buont yn canu hyd 1996. Bu cyngerdd ffarwel olaf yr hogia ym Methesda ar Ionawr 6ed 1996. Buont yn canu a gwneud sgetsys a chrwydro ar hyd a lled Cymru am bron i ddeugain mlynedd. Cawsom noson hwyliog iawn yng nghwmni Neville Hughes yn sôn am yr hwyl a gawsant yn ystod y cyfnod perfformio. Canodd rai o'r hen ganeuon i gyfeiliant ei gitâr a gorffen y noson gyda'r gân 'Defaid William Morgan'. Dyma noson oedd wedi plesio pawb.

Yn anffodus, nid oedd Guto Rowlands yn medru siarad yn ein cyfarfod nesaf ar Hydref 10fed oherwydd marwolaeth ei dad y Dr. J. Gwyn Williams. Rhoddodd Dr Pat Williams i ni sgwrs ar 'Brethyn Cartref'. Thema y sgwrs oedd ffasiwn yn yr Oesoedd Canol yng Nghymru.

Bu'n disgrifio gwisgoedd ac esgidiau y cyfnod a dangos fel mae ystyr geiriau sydd yn disgrifio gwisg wedi newid dros y canrifoedd. Roedd yn sôn am wisgoedd a ddisgrifir yn chwedlau y Mabinogion ac yng ngyfreithiau a llyfrau o'r adeg yna.

Diolch iddi am roi i ni noson ddiddorol a llenwi y bwlch ar fyr rybudd.

Ar nos Fawrth 17eg daeth Bob Morris atom i sôn am 'Chwilio am Madog' neu 'Ar Drywydd y Madogwys' sef dilynwyr Madog. Mae'r stori yn dechrau yng nghyfnod tywysogion Gwynedd. Honnir fod Owain Gwynedd yn dad i Madog. Roedd gan Owain Gwynedd ddeunaw o blant ond nid oes tystiolaeth ysgrifenedig am Madog. Wedi marwolaeth Owain bu rhyfel cartref rhwng ei feibion a'r grêd yw fod Madog wedi gadael Cymru i chwilio am wlad newydd ac hefyd i ddianc rhag y rhyfela. Nid oes ffynhonell wreiddiol am y wybodaeth yma o gyfnod Owain Gwynedd.Mae llawer wedi ysgrifennu am Madog yn cynnwys John Ceiriog Hughes yn ei gerdd 'Llongau Madog' a ysgrifennwyd yn 1863

*"Wele'n cychwyn dair ar ddeg*
*O longau bach ar fore teg"*

Dros y blynyddoedd wedyn bu llawer o ddiddordeb yn hanes Madog gyda ambell i ymwelydd i'r America yn taeru fod llwyth o bobl yno, sef y Mandaniaid, yn siarad Cymraeg. Roeddynt yn byw ar hyd glannau yr Afon Missouri.

Ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif bu Cymdeithas Gwyneddigion, Llundain yn holi am rywun a fyddai yn barod i fynd i'r America i chwilio am y llwyth yma. Penodwyd John Evans, o'r Waunfawr, a theithiodd i'r America yn 1792. Clywsom dipyn o hanes a phrofiadau cyffrous John Evans dros y ei arhosiad o bum mlynedd yno. Ni ddarganfu unrhyw awgrym o eiriau Cymraeg yn iaith y Mandaniaid er iddo aros gyda'r llwyth am 6 mis yn 1796. Bu farw yn yr America yn 29 mlwydd oed.

Roedd Madog yn arwr nad oedd yn bod yn hanesyddol. Mae sawl cofeb wedi eu codi iddo a nofelau wedi eu 'hysgrifennu amdano ac mae cofeb i John Evans yn y Waunfawr.

Yn ystod wythnos hanner tymor aeth y Gymdeithas i ymweld â'r Ysgwrn sef cartref Hedd Wyn yn Nhrawsfynydd. Roedd pawb yn teimlo ar ôl llwyddiant Gŵyl Hedd Wyn ym mis Medi mae peth da fyddai mynd i weld ei gartref ac chael dysgu am ei fywyd a'i deulu cyn iddo ymuno a'r fyddin.

Cychwynodd y bws o Lerpwl ar amser nid yn rhy fuan a chawsom gyfle i fynd dros y bont newydd yn Runcorn.Wedi cinio yn y Bala, mynd ymlaen i Drawsfynydd ac erbyn hyn oedd y tywydd wedi gwaethygu ac roedd y niwl yn drwchus. Cawsom groeso yn 'Yr Ysgwrn' gan dîm Parc Cenedlaethol Eryri a gan Gerald, nai Hedd Wyn. Mae'r tŷ wedi ei ddatblygu ac fe ail agorodd i ymwelwyr yn gynharach eleni. Braf oedd cael sgwrs gyda Gerald am hanes y teulu o flaen tanllwyth o dân. Buom yn y bwtri, ac yn yr ystafelloedd gwely lle gwelsom y cadeiriau Eisteddfodol a enillodd Hedd Wyn. Buom yn yr ystafell lle mae'r Cadair Ddu yn cael ei cadw a chawsom eglurhad ar y cerfiadau a'r symbolau Celtaidd a Christnogol sydd ar y Gadair. Nid oes neb yn cael eistedd ar y Cadair Ddu. Yn ôl traddodiad ni chaiff neb eistedd arni ond y bardd a'i henillodd.

Erbyn hyn mae'r cadair yn fregus iawn. Wedi bod yn y tŷ gwelsom ffilm fer yn y beudy am y Rhyfel byd cyntaf ac am rai o Drawsfynydd a fu farw yn yr ymladd. Aethom wedyn i weld yr arddangosfa newydd cyn cael paned o dê a theisen. Wedi pryd o fwyd ardderchog yn Ngwesty yr Eryrod, Llanuwchllyn roedd yn amser cychwyn adref wedi cael diwrnod arbennig o bleserus. Diolch i Roderick a Norma am yr holl baratoi ar ein cyfer.


*Glenys Johnson, Eryl W. Jones a R. Ifor Griffith yn mwynhau cinio Corwynt Cariad*

## Eglwys Bethel, Heathfield Road/Auckland Road, Lerpwl

"Gwyrth Duw mewn rhagorwaith dail". Hyn yw natur ar ei orau, ac er byw mewn dinas fawr fel Lerpwl cawn gyfleon i weld yr harddwch yn nail y coed yn newid eu lliw a newid eu lle. Bendithiwyd Lerpwl a pharciau enfawr.

Ar fore Sul cyntaf o Hydref cynhaliwyd ein Gŵyl Ddiolchgarwch o dan ofal ein gweinidog, a'r sacrament o Swper yr Arglwydd yn rhan o'r diolch hwnnw. Addurnwyd y capel gyda ffrwythau a llysiau'r maes gan Beryl Williams. Roedd estyniad o'r diolch mewn cyfarfod gweddi ar y nos Lun ddilynol o dan ofal llywydd y mis, Roderick Owen a gyda chyfraniadau gan Norma Owen, Meirion Evans, Eryl Wyn Jones a Dr. D. Ben Rees.

'Pawb a'r Farn' oedd testun y Gymdeithas Lenyddol ar nos Lun, 9 Hydref. Yr holwr oedd Dr. D. Ben Rees ac aelodau'r panel oedd Sara Williams, Ifor Griffith ag Elwyn Evans o Fanceinion. Dyma rai o'r cwestiynau a wyntyllwyd gan y panel:

i) A yw'r Cynulliad ar ôl ugain mlynedd wedi gwneud Cymru yn wlad mwy hyderus nag yr ydoedd cynt a beth fu y manteision cael y Refferendwm yn 1997?

ii) A ddylai Ben Woodburn chwarae dros Gymru gan mai ei unig gysylltiad yw ei daid yn Gymro?

iii) Beth yw barn y panel am y sefyllfa yn Catalonia ac ymateb Sbaen i hyn?

iv) A ddaw cyfle i ferch fel Michelle Obama ddod yn Arlywydd yr Unol Daleithiau wedi methiant Hilary Clinton yn yr etholiad diwetha'?

v) Pa dref yng Nghymru neu Loegr sydd yn ddinas fywiog ac iddi naws dramor yn arbennig pan fo'r tywydd yn braf? Ateb Sara oedd - Manceinion, Ifor - Caernarfon ag Elwyn - Aberystwyth.

Cafwyd atebion diddorol ac amrywiol gan y tri ac aml i brociad gan yr holwr! Tybed beth fyddai eich ymateb chwi ddarllenwyr *Yr Angor*?

Diolch i'r holwr a'r panelwyr am ei gwaith graenus a'r atebion gwerthfawr. Yr oedd pawb o'r gynulleidfa hardd ar ei hennill.

Daeth Miss Anna Jane Evans (ysgrifennydd Apêl Cymorth Cristnogol Cymru) atom i'r oedfa ar fore Sul, Hydref 15fed i sôn am 'Gorwynt Cariad'. Bydd corwynt o'r math yma yn lliniaru bywyd y tlodion yn ynysoedd y Philippines. Dangoswyd lluniau o'i thaith i'r ynysoedd a bu ymateb y gynulleidfa i'r angen yn arbennig o haelionus. Darparwyd tamaid blasus ar ôl yr oedfa a chyfle i gymdeithasu. Diolch i Carys Jones ein swyddog cyswllt am y trefniadau a chwiorydd yr eglwys sydd mor barod i gefnogi a pharatoi y lluniaeth.


*(o'r chwith i'r dde) Elwyn Evans, R. Ifor Griffith, Dr. D. Ben Rees a Ms Sara Williams*

Mae apêl Corwynt Cariad ym Methel wedi cyrraedd dros £2,000, ac y mae gennym hyd bore Sul, 31 Rhagfyr 2017 i anfon ein rhoddion os na chawsom gyfle hyd yn hyn. Mae cymaint o'n plith wedi cael y cyfle, a diolch o galon iddynt.

Rhagor am y 'Diwygiad Protesannaidd' fu testun y Cylch Trafod ar y nos Lun, 23 Hydref o dan arweiniad ein gweinidog Dr. D. Ben Rees. Cafwyd adroddiad o gefndir yr Almaen yn y cyfnod Hitler, 1932-1945. Hon oedd y wlad gyfoethoca' yn Ewrop, ac yn gweithredu'n wahanol i bob gwlad arall, a'r pwyslais ar greu cymdeithas berffaith a hynny drwy ddewrder, arwriaeth a nerth braich. Doedd dim le i neb oedd yn wahanol, yn wan neu yn wrthwynebus. Roeddent yn cashau yr Iddewon â chas perffaith ac yn hyn o beth yn dilyn yr arwr, Martin Luther. Bu i'r diwygiad achosi mwy o ryfela, trais a lladd yn y byd. Roedd llawer o ysgolheigion mawr yn yr Almaen yn y cyfnod hwn, fel Karl Barth, Dietrich Bonhoeffer, Von Harnack a Martin Niemoller. Roeddent naill yn cytuno, cefnogi neu yn gwbl ddifater ar gwestiwn yr holocost. Sut mae esbonio'r natur ddynol? Dyna un o'r cwestiynau a drafodwyd ymhlith llu o rai eraill mewn sesiwn bwysig. Rydan ni'n dysgu rhyw-beth newydd o hyd, a dyma a ddigwydd-odd. Diolch am noson ddiddorol ac i Dr. Rees am ei gyflwyniad, a bydd yn traddodi o dan nawdd Pwyllgor Bywyd a Thystiolaeth yr Henaduriaeth leol, ddarlith yn festri Capel Bethesda, Yr Wyddgrug am 7 o'r gloch ar Nos Iau, 16 Tachwedd. Y testun '*Martin Luther a'r Diwygiad Protestannaidd*'.

Yn ystod y mis bu farw Mrs Olwen Jones, Cleveley Park, gwraig hoffus a siriol, gwên ar ei hwyneb bob amser a chwerthiniad iach.

Hefyd, Miss Ann Roberts, Llanilar, Score Lane. Un o Gymry Lerpwl oedd Ann. Roedd Ann yn ddifyr iawn ei sgwrs bob amser. Roedd dawn arbennig gan Ann i adrodd stori ac i adrodd ar lwyfan. Roedd y capel yn agos iawn at galon y ddwy ohonynt a buont yn ffyddlon iawn hyd eithaf eu gallu. Diolch am gael eu hadnabod. Gweler coffâd iddynt gan eu gweinidog yn y rhifyn hwn o'r *Angor*.

Ein llongyfarchiadau i Mr. Bill McEvoy ar ddathlu ei ben-blwydd yn 90 oed. Mae yn dal i gerdded fel llanc deunaw oed.

Llawenhawn gyda Gareth a Lauren Roberts ar enedigaeth merch, wyres i Mair ag Idris Roberts. Croeso Delilah. Hefyd i Sian ag Andy, wyr i Margaret Anwyl ag Allan. Croeso James.

Gofidiwn am anhwylder Louie Jones, Mossley Hill wedi torri ei garddwrn ag Anne M. Jones yn dal i dderbyn triniaeth gartref. Brysiwch wella.

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Yr oedd hi'n oedfa fendigedig ar yr ail Sul o Hydref pan y cawsom gyfle i groesawu Mrs Phyllis Weaver, Birkdale yn aelod ar ein llyfrau. Un o blant capel Waterloo ydyw, yno y'i bedyddiwyd yn gyflawn aelod. Yn y capel hardd y priododd ac o fewn ei muriau y bedyddiwyd ei phlant. Trwythwyd hi a'i brawd a'i chwaer yn hanfodion y ffydd Gristnogol ac fel teulu buont yn gefnogol i'r eglwys Anglicanaidd leol. Ers nifer o flynyddoedd bu Phyllis yn teithio i'r oedfaon o gyrion Southport ac yn cludo aelodau o Bethania gyda hi o Blundellsands, Crosby neu Waterloo. Disgybl da i Iesu Grist ydyw a soniodd y Gweinidog am groeso ei diweddar fam iddo ar ei ymweliadau â hi yn Crosby ac am sicrwydd ei chred yn yr efengyl dragwyddol. Anfonwn ein cofion cynhesaf at Miss Susan Evans, Crosby a fu yn bur wael ac yn yr ysbyty. Cawson oedfaon undebol yn eglwys Crist, ni a Bethel ar ddau Sul. Y Sul cyntaf **12 Tachwedd am 11.30 o'r gloch** ac yna yr ail ar Sul, 10 Rhagfyr 2017 am 11.15 o'r gloch pryd y gweinyddir Sacrament o Swper yr Arglwydd ar y ddau achlysur.

## Cymdeithas Cymry Birkenhead

Yn ôl ein harfer, cawsom wasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel Seion ar nos Lun, 2 Hydref. Pleser oedd croesawu y Parch Robert Parry, Caer a Wrecsam atom. Testun ei araith oedd y cynhaeaf, a darllenodd rhan o bennod 23 o lyfr Lefiticus. Salm 137 a phennod olaf llyfr Datguddiad.

Yn llyfr Lefiticus cawn ddisgrifiad manwl o baratoadau a defodau pobl Israel at dymor y cynhaeaf gan bwysleisio eu bod yn offrymu dim ond y gorau o'i cnwd i Dduw. Cyn offrymu a dathlu cafwyd saith wythnos o baratoi drwy gyfeirio eu meddyliau at fendithion Duw, cyffesu eu pechodau a cheisio maddeuant. Yna gorchmynwyd hwy i lawenhau ac offrymru am saith diwrnod yn ystod yr Ŵyl. Mor annigonol mewn cymhariaeth yw dydd diolchgarwch i ni heddiw – un awr efallai mewn un diwrnod.

Tybed ein bod yn cymeryd ein bywyd cysurus yn ganiataol gan anghofio nid yn unig ffermwyr a garddwyr ein gwlad ni, ond y miloedd sy'n llafurio mewn tlodi mewn gwledydd tramor er mwyn i ni fwynhau ffrwythau a llysiau egsotig ac anarferol.

Teimlai y Parchedig Robert Parry fod ein bywyd yn rhy hawdd fel na fedrwn ddatgan diolch diffuant a chywir. Cofiodd am ddyddiau hel cynhaeaf gyda'i dad a'i daid ar ffermydd Cymraeg, a'r gwir ysbryd o ddiolch a welwyd yn ein capeli yn y dyddiau hynny. Mae gennym gartrefi clyd a chynnes, ond oedd rhaid i'r Israeliaid godi eu pebyll a'u hail osod yn lafurus – eu braint a'i dyletswydd oedd moli a diolch i Dduw. Cawsom eglurhad byw o symboliaeth y cynhyrchion a offrymwyd i Dduw: blaen ffrwyth y coed yw'r bendithion, buddugoliaethau bywyd yw'r palmwydd, cysgodion bywyd yw'r brigau deiliog a phrofedigaethau sydd i'w gweld yn glir yn helyg yr afon.

Ceir y profiadau hyn ym mywyd pob un ohonom a thrwyddynt y datblygir ein cymeriad a'n ffydd a deall mai "pwyso ar Iesu sydd yn dal y pwysau i gyd". Pregeth rymus, deallus, a chofiadwy oedd hon i'n harwain at dymor y diolch. Braint oedd cael Parch Robert Parry atom unwaith eto. Parch Glenys Wilkinson oedd llywydd y noson, a gwnaed casgliad at St John's Hospice, a Terry O'Neill oedd yr organydd.


"Y Co Dre a'i Fodan Lad" oedd ein gwesteion ar Hydref 16fed - sef Mari Gwilym ac Emrys Llewelyn, y cwpwl adnabyddus a phoblogaidd o Gaernarfon - a'r cyffiniau! Wrth eu cyflwyno, cyfeiriodd Mr. Arwel Evans at ei gysylltiadau ef a'i deulu a'r hen dref lle y magwyd ei dad Mr Clifford Evans, aelod annwyl a gweithgar gyda Chymry Manceinion a fu farw yn ddiweddar. Un o Bontllyfni yw Mari, merch y Parch Gwilym O. Roberts. Mae hi'n actores ac awdures llwyddianus ac yn gwneud gwaith i hybu darllen llyfrau Cymraeg ymysg plant. Mae Emrys i'w weld yn aml yn arwain teithiau o amgylch y dref gyda angerdd, gwybodaeth eang, a gwir gariad at ei filltir sgwar. "Jo Bach" yw ei enw cyfarwydd, er mwyn gwahaniaethu rhyngddo a'i dad "Jo Mawr", cymeriad diddorol a gwybodus arall.

Gan fod gan y ddau bersonoliaethau cartrefol a hoffus cawsom noson ym myd y "cofis". Awyrgylch a hanes y dref, a'r Cymreictod pur sy'n dal yn rhan hanfodol o dref mor hanesyddol. Adeiladwyd y castell i ormesu'r Cymry, heddiw mae'r mintau yn ymweld â'r un man, ac yn dod ag elw i'r dref ac ehangu gwybodaeth ohoni. Wrth i'r ddau sôn ychydig am eu bywyd personol, eu diddordebau, a'i carwriaeth (ffrindiau Emrys ddim yn orhoff o "fodar lad" o'r "sticks") diddorol oedd clywed gwahaniaethau rhwng iaith "pur" y wlad a iaith unigryw a hynod y cofi. Mae gwahiaethau i'w weld hefyd yn eu hagwedd at y byd allanol, at y gymuned, ac yn eu hiwmor a'u hidiomau. Mae'n ofid iddynt - ac i lawer ohonom fod technoleg modern yn rhwystro sgwrsio personol ymysg pobl ifanc. Clywsom am ffyddlondeb a gofal y cofis at ei gilydd, eu tref, eu hiaith a'u trefadaeth mewn lle mor hanesyddol a phwysig yn hanes ein cenedl.

Gwnaed y diolchiadau gan Mrs Iola Edwards, hithau hefyd gyda chysylltiad â'r dref. Cytunodd pawb ein bod wedi mwynhau noson gartrefol, hyfryd a sylwodd tra bydd y ddau yma yn weithgar y mae gan Gaernarfon llysgenhadon gwych sy'n ffyddlon i'r dref ac i'w hetifeddiaeth fel cofis. Ac maent yn medru sgwrsio gyda hiwmor clên, a chysylltiad at eu gilydd a'u cynulleidfa trwy eu straeon a'u personoliaethau liwgar. Noson arall werthfawr i Gymry Penbedw a'r cyffiniau.

# CORNEL Y TRYSORYDD

## Rhagfyr 2017



| | |
|---|---|
| Y Parch Aled Lewis Evans, Wrecsam | £15.00 |
| Mrs Margaret a Norman Tee, Y Bala | £5.00 |
| Mrs Glenys Jones (Er cof am Bob), Prenton | £30.00 |
| Mr a Mrs Robyn Williams, Pwllheli | £25.00 |
| Mrs Mary C Williams, Nefyn | £20.00 |
| Mrs Eryl Chitty, Gateacre | £100.00 |
| Mrs Eva James, Pwllheli | £25.00 |
| **Cyfanswm** | **£215.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

# ADRODDIADAU O FANCEININON

### ADRODDIAD CYFARFOD Y MERCHED

Cawsom ein Rali genhadol yng Nghapel Willow Tree Road, Altrincham ar Brynhawn Sadwrn, Hydref y 7fed gyda nifer bach ond brwdfrydig yn bresennol i groesawu Mrs Cheryl Williams o Lanrhaiadr ger Dinbych a'i gwr atom. Roedd yn bleser i gyd i wrando ar ein gwraig wadd. Mae hi ar hyn o bryd yn gweithio i'r Gymdeithas Alzheimer ond cafodd wahoddiad i fynd i ynysoedd y Philipinas yn enw Eglwys Bresyteriaidd Cymru a chytunodd yn syth. Dyfynnodd o Mathew 18: 1-9, ddameg yr heuwr, a dywedodd fod pob gweithred fach o gariad yn gallu cael dylanwad ac yn dwyn ffrwyth. Soniodd yn arbennig am ei thaith i ymweld â'r grwpiau sy'n cydweithio gyda Cymorth Cristnogol yn y Philipinas, am fod Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn casglu at eu prosiectau eleni yn y cynllun 'Corwynt Cariad'.

Roedd hi yn hapus iawn i gofio ac adrodd wrthym yr hanes gyffrous o'i thaith a chyrraedd Manila wedi siwrne hir efo Bethan Davies ac Anna Jane Evans ar nos Sadwrn ym mis Ebrill eleni a chael



*Mair Swift, Cadeirydd a Cheryl Williams*

croeso cynnes gan y cydweithiwr – Voltaire a oedd eisoes wedi bod yng Nghymru. 'The circle of fire' yw enw'r ardal oherwydd bod yr ardal yn dioddef o effaith llosgfynyddoedd, corwyntoedd a daeargrynfeydd. Yr oedd ganddynt yn y gwesty gyfarwyddiadau ar beth i'w wneud mewn tsunami a daeargryn. Yn ein gwlad ni, cyfarwyddiadau ar gyfer tân a geir.

Yn 2013 roedd corwynt Hayan wedi difrodi llawer ar yr ynysoedd ac roedd llawer o bobl wedi colli eu cartrefi a'r llywodraeth wedi eu symud o'u cynefin i ardaloedd newydd sbon. Ond doedd dim tai ar eu cyfer, dim ond tir gwyllt fel jyngl, ac roedd rhaid iddynt wneud y tai eu hunain. Roedd y gymdeithas FORGE, partner i Gymorth Cristnogol, yn cydweithio gyda'r bobl hyn. Roedd tlodi mawr yn y wlad, pobl yn crafu bywioliaeth heb cymorth gan y llywodraeth. Mae Cymorth Cristnogol yn cefnogi cymdeithasau sy'n dysgu'r bobl i wybod am eu hawliau ac i gydweithio i wella eu cartrefi a hyd yn oed i allu aros yn eu cynefin.

Erbyn y flwyddyn yma, roedd gan y bobl dai del a thipyn o drefn ar eu bywydau – yn ôl y lluniau a welsom - ond doedd dim ysgol yn agos i'r plant a dim hawl iddynt ddefnyddio'r lonydd i fynd yno heb dalu. Mae'r tlodion yn gorfod ymdrechu am bob peth, y dynion yn gorfod mynd ymhell oddi gartref i chwilio am waith a theuluoedd wedi eu gwahanu. Mae'r gymdeithas FORGE wedi helpu hyfforddi arweinwyr yn y pentrefi ar gyfer argyfyngau fel tân neu ddilyw ac mae hyn wedi arbed bywydau yn sicr. Yn lle bod yn chwerw am yr holl broblemau yn eu bywydau mae'r bobl hyn yn ceisio bod yn bositif a gwelodd Cheryl graffiti yn dweud: 'We can change the world with kindness'.

Roedd yna gymdeithas arall a soniwyd amdani, UPA (Urban Poor Association) a thrwy'r gwaith yma mae pobl yn ceisio gwneud gwaith llaw i ennill bywoliaeth allan o sbwriel a dyna lle mae ein matiau bach plastic wedi eu gwneud - mae gan Gapeli Altrincham a Noddfa Oaker Avenue un bob un i'n hatgoffa bob amser am y brodyr a chwiorydd yn yr ynysoedd pell rheiny sydd angen ein gweddi a'n cymorth, fel help llaw i helpu eu hunain. Diolch i Dduw am y Rali i'n hysbrydoli ac am allu helpu pobl trwy Gymorth Cristnogol i gael bywyd gwell. Roedd ymweliad Cheryl yn fraint i ni.

### CYMDEITHAS CYMRY MANCEINION

Ail-ddechreuodd y Gymdeithas ym mis Hydref gyda noson ddifyr iawn o dan arweiniad Dr John Williams Lerpwl. Roeddem yn hynod o falch i weld bod Mrs Beryl Williams wedi dod gydag e hefyd ac yn gwneud yn dda wedi iddi gael problemau gyda'i hiechyd. Teitl y sgwrs oedd 'Y Ffotograffydd John Thomas'. Roedd yn ddiddorol i ddysgu bod ei wreiddiau yn Sir Aberteifi ond daeth dros y ffin i gael bywioliaeth a chawsom weld toreth o'i luniau yn adlewyrchu'r oes yn berffaith. Roedd yn ysbrydoledig ac yn ddarlun clir o'r cyfnod. Noson ardderchog a'r ystafell yn gyffyrddus lawn. Diolch John! Anfonwn ein cofion gorau at y rhai sy'n methu mynychu'r cyfarfodydd. ar hyn o bryd.

**CAPELI:** Mae'r clociau wedi newid a'r gaeaf ar y ffordd, ond cawsom oedfa Diolchgarwch hyfryd gyda'r Parchedig Robert Parry ar y 15fed Hydref ac roedd yn ardderchog i weld y teulu i gyd. Ar Hydref yr 8fed, daeth Olaf a Diemut ein ffrindiau o'r capel Almaeneg i sôn am Ddiwygiad Martin Luther sy'n cael ei ddathlu eleni, 500mlwyddiant. Roedd yn ddiddorol a gwahanol. Diolchwn i Dduw am y capeli dal yn agor ac yn croesawu'r rhai sy'n dod.


## LIVERPOOL WELSH CHORAL
## CÔR CYMRY LERPWL

LIVERPOOL WELSH CHORAL

***Season/Tymor 2017-18***

Nos Fercher/Wednesday 20th December/Rhagfyr 2017
am/at 7.30 p.m yn y/at the Philharmonic Hall
**'CHRISTMAS CRACKERS'**

Sadwrn/Saturday 17th March/Mawrth 2018
am/at 7.30 yn/at
Eglwys All Hallows Church, Allerton
**'VOICES AT LENT'**
Cerddoriaeth/Music by
Haydn, Finsi and/a Chilcott.

Sadwrn/Saturday
23rd June/Mehefin 2018
am/ at 7.30 p.m. yn yr/at the
Philharmonic Hall
**'THE SPIRIT OF LIVERPOOL'**

Manylion pellach a phrisiau ticedi /
Further details including ticket prices on
www.lwcu.co.uk

*Ysgrif Goffa*

# Miss Ann Roberts

## (1931-2017), Score Lane, Childwall, Lerpwl



Syfrdanwyd Cymry Lerpwl pan ddaeth y newydd fore Iau, 12 Hydref bod Miss Ann Roberts wedi ein gadael y noson gynt yn dawel yn ei chadair yn ei chartref clyd Llanilar ym maesdref Childwall. Yno y bu fyw er pan adeiladwyd y tŷ a gwelodd lawer o fynd a dod, a bu hithau yn fawr ei charedigrwydd i'w chymdogion a fu mor deyrngar iddi. Merch Kate ac Isaac Roberts ydoedd, ac er ei geni yng Nghaernarfon, yn Lerpwl y treuliodd rhan helaethaf o'i hoes ar wahân i flynyddoedd yr Ail Ryfel Byd pan yr aeth hi a'i mam i ardal Efailnewydd a Rhydyclafdy, a difyr oedd gwrando arni yn nyddu atgofion o'r blynyddoedd hynny.

Yr oedd ei thad yn meddu ar ddiddordeb mawr mewn llenyddiaeth Gymraeg ac yn ffrindiau gyda nifer o'r beirdd Cymraeg Lerpwl, y ddau bennaf oedd William Morgan (Collwyn), gŵr o Carno, a J. H. Roberts (Monallt) a galwai yn gyson yn y cartref.

Addysgwyd Miss Ann Roberts yn Ysgol Uwchradd Childwall Valley a gadawodd y sefydliad i ddilyn fel athrawes. Hyfforddwyd hi yng Ngholeg Hyfforddi Padgate lle y cafodd fwynhad mawr gan fod yna cnewyllyn o Gymry yno a'u bod yn cael croeso a gofal ar bnawn a nos Sul yng nghapel Cymraeg Warrington. Lluniodd ysgrifau ar y cyfnod hwnnw i'r *Angor* yn tanlinellu gofal brodyr a chwiorydd Capel iddynt fel pobl ifanc. Cafodd swyddi dysgu babanod yn Ysgolion Lerpwl a dod yn aelod o Ysgol adnabyddus iawn, ac yn agos i'w chartref Ysgol Northway lle y cafwyd dau Brifathro nodedig, Owen Owens a Gwilym Meredydd Jones. Yn y blynyddoedd olaf cafodd ei phenodi yn Brifathrawes Ysgol y Babanod ond sylweddolodd nad oedd hyn yn fêl i gyd. Collodd y wefr o gael dysgu'r plant, a'r cyfrifoldeb o ddysgu iaith a sgiliau byw, sgiliau angenrheidiol am weddill ei dyddiau.

Cymerodd ymddeoliad yn 59 mlwydd oed gyda'r canlyniad iddi gael 27 o flynyddoedd o ryddid a chyfle i ddilyn ei diddordebau.

Yr oedd ganddi gymaint o ddiddordebau. Magwyd a meithriniwyd hi yng nghapel y Presbyteriaid Cymraeg Edge Lane. Soniai gydag edmygedd mawr o weinidogaeth y Parchedigion Llewellyn Evans a W, D. Jones. Yr oedd Edge Lane yn eglwys fyw, gweithgar a chafodd Ann bob cyfle i fod yn un o gynheiliaid yr achos, a braint oedd ei chroesawu hi a gweddill yr aelodau i Eglwys Unedig Bethel yn 1976 lle y bu yr un mor selog a theyrngar.

Chwaraeodd ran amlwg yng Nghyfeisteddfod Cenhadol Henaduriaeth Lerpwl a byddai bob amser yn barod i gymryd y defosiwn neu i fynegi diolch ar ddiwedd y rali. Rhoddodd gefnogaeth i'r bywyd Cymraeg, i ddechrau fel Ysgrifenyddes Aelwyd Urdd Anfield. Yr oedd cymaint o weithgarwch yn niwedd y pum a dechrau'r chwedegau ym myd yr Aelwydydd, Eisteddfod, Gŵyl Ddrama a'r Mabolgampau, a byddai Ann wrth ei bodd yn trefnu a gweinyddu. Cadwodd ei ffrindiau, a chofiaf yn dda fel y bu ar y teithiau a drefnwn, hi ag Olga a Cath o fyd athrawon Lerpwl, ac o'r capel Gwen Owen a Enid Hughes Jones. Cawsom brofiadau ysgytwol fel y profiad hwnnw ar nos Lun y Sulgwyn yn Jeriwsalem pan y llenwyd yr ystafell â gwynt nerthol ar ôl i Ann gwblhau darllen o lyfr yr Actau a minnau yn arwain ar lwybr gweddi. Adroddais hyn yn yr hunangofiant, *Di-Ben-Draw.*

Yr oedd gan Ann ddiddordebau deallusol. Prynai lyfrau Cymraeg o Siop y Siswrn, Wyddgrug, cardiau Cymraeg a dyddiadur Cymraeg. Bob Sadwrn am flynyddoedd yn y nawdegau byddai hi a Dilys Evans, Gwen Owen, Enid Hughes Jones yn cyfarfod dros baned i roi'r byd yn ei le. Bu yn ffodus iawn i dderbyn gofal plant Gwen a Enid, Siân a Richard Hughes Jones, a hwy a drefnodd yr arwyl yn Amlosgfa Springwood ar bnawn Mercher, 25 Hydref. Cydymdeimlwyd hefyd â'i chefnder Mr. John Arfon Jones, Penmaenmawr.

Dioddefodd am flynyddoedd lawer, ugain mlynedd o leiaf, gyda'i hanadlu a bu lawer tro yn wirioneddol wael yn yr ysbytai. Cadwodd ei ffydd loyw hi rhag digaloni a chefnogaeth pobl dda Bethel yn ymweld a'i chludo yn ôl y galw. Person annibynnol ydoedd, a mynnodd aros yn Llanilar hyd derfyn ei phererindod. Hoffai rhaglenni teledu, Cymraeg a Saesneg, ei chompiwter a daeth yn gryn giamstar arno, a'i gardd, oedd yn werth ei gweld. Prynodd blanhigion ar ôl ei phen-blwydd ar 28 Medi a chafodd ofal nodedig y gofalwraig Christine a matron y gymuned, Sharon. Cadwodd i'n diddori, byddai'n mwynhau cwmniaeth, ac ambell stori i'w gwneud hi i chwerthin. Bu yn affaeliad ac yn annwyl, yn ddiolchgar a diwyd, a gwelwn lle Ann yn wag. Collodd Cymry Lerpwl un o'r goreuon.

*D. Ben Rees*

---



# Cyfarchion Nadolig 2017

Dymuna John a Beryl Williams Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w ffrindiau pell ag agos.

Tangnefedd yr Ŵyl i bawb a ddarlleno'r Angor oddi wrth Ken Williams, Gateacre.

Nid aiff Nadolig heibio heb ddymuno'n dda i'n gilydd. Cyfarchion didwyll oddi wrth Roderick a Norma Owen.

Diolch i bawb a wnaeth 2017 yn flwyddyn gofiadwy a chyfoethog i ni fel teulu. Dymuna Meinwen a minnau (DBR) Nadolig y Goruchaf a Blwyddyn Newydd Gymeradwy i bawb ohonoch, teulu'r Angor.

Dymuna Anne M. Jones ddiolch i bawb o'r aelodau fu mor garedig yn ystod ei anhwyldod. Dymuniadau gorau am Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

# CYSTADLEUAETH Y NADOLIG

## *YR ADFENT A'R GENI*

## A) CAROLAU AC EMYNAU. PA RAI?

1. "Gair wn am hedd i'r" hysbryd yng nghwmni Nantlais yn suo'r baban i gwsg (9,4)
2. Mae yma "le i'w hanthem ef" ar y ffordd i'w ddinas (3,1,8)
3. I'w "weld, a sôn" amdano ynghwsg yn y gwair (5,3)
4. "Dal cri o galon" hapus wrth uno a Walford Davies
   'O Ddinas Fechan Bethlehem" (5,7) (6)
5. Yr "enw gore i'n alw", ar Ddydd i'w Gofio (5-7)

## B) GWNEUD GEIRIAU

| | | |
|---|---|---|
| LL | E | CH |
| W | A | N |
| W | Y | N |

Gwnewch eiriau allan o'r llythrennau yn y bocs i gynnwys pedair llythyren neu mwy; y llythrennau i'w defnyddio ond unwaith. Mae yma o leiaf 20.

Hint: Heddiw ……………
Na foed neb yn drist
Mewn Carolau seiniwn
Foliant Iesu Grist

Gweler yr atebion ar dudalen 13

Diolchir i Ken Williams (Aelod anrhydeddus o'r Angor) am y tasgau hyn.

# CWIS YR ANGOR

1. Pwy enillodd y Gadair yn 2016?
2. Ble cynhaliwyd yr Eisteddfod yn 2017?
3. Beth yw prifddinas Sierra Leone?
4. Beth yw Haverfordwest yn Gymraeg?
5. Beth yw enw'r cwrs rasio ceffylau yn Trimsaran?
6. Pwy yw capten tîm criced Lloegr a Chymru?
7. Beth yw arian De Affrica?
8. Pwy yw awdur y nofel *Far from the Madding Crowd*?
9. Pa salwch oedd thema cerdd fuddugol y Goron eleni?
10. Ble bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2018?
11. Ble mae Amgueddfa'r Louvre?
12. Pwy oedd Aelod Seneddol cyntaf Plaid Cymru?
13. Ym mha flwyddyn y cyhoeddwyd y Beibl Cymraeg gyntaf?
14. Beth oedd enw cyntaf y gwyddonydd Flemig a Graham Bell?
15. Pa ddau rif sydd yn dod nesaf 1 3 5 7 11 13 17?
16. Pwy oedd Aelod Seneddol Môn yn Etholiad Cyffredinol 1970?
17. Pwy gafodd ei ddewis yn arweinydd UKIP Cymru yn 2017?
18. Ym mha wersyll milwrol ar y Glannau y bu Hedd Wyn ynddo o Ionawr 1917 hyd mis Mehefin 1917 pryd yr aeth i'r Cyfandir?
19. Ym mha le y bu arwyl y Parchedig Huw Jones, Llanfair PG a Rhuddlan (gynt) yn 2017?
20. Pwy gynlluniodd Coron Eisteddfod Môn a'r ddwy Goron yng ngŵyl y Gadair Ddu/Hedd Wyn ym Mhenbedw ar Sadwrn, 9 Medi 2017?
21. Pwy oedd Gweinidog Cyntaf Cymru cyn Carwyn Jones?
22. Ym mha le yn nyffryn Conwy y treuliodd yr Athro Deryn Rees Jones, Prifysgol Lerpwl, ei gwyliau haf yn eu phlentyndod?
23. Beth oedd y dasg a gafodd Dr. Pat Williams a Mrs Nan Hughes Parry a Aled Lewis Evans yng Ngŵyl Hedd Wyn 2017?
24. Pwy oedd y Prif Weinidog pan gynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Penbedw Medi 1917?
25. Pwy a gyflwynodd y Gadair yng Ngŵyl Hedd Wyn ac a enillwyd gan Martin Huws, Ffynnon Taf, ger Caerdydd?

*Anfoner yr atebion i'r Golygydd, Dr. D. Ben Rees, 32 Garth Drive, Lerpwl, L18 6HW erbyn 31 Rhagfyr 2017 ac fe gaiff y buddugwyr ei henwi – y tri cyntaf – yn rhifyn Chwefror 2018 o'r Angor a derbyn rhodd am y gamp.*

*Ysgrif Goffa*

# Mrs OLWEN JONES

## Allerton, Lerpwl

**Bendithiwyd Mrs Olwen Jones, Cleveley Park a hir ddyddiau, yr oedd bron yn 94 oed pan y’n gadawodd yn Ysbyty Frenhinol Lerpwl, a chafodd pob gofal yn y flwyddyn olaf o’i hoes pan yr amddifadwyd hi o’r hyfrydwch i fynychu ei chapel a’i chymdeithas, a mwynhau cwmniaeth ei chyd Gymry. Cynnyrch cymuned Cymraeg werinol tref Caernarfon ydoedd, a soniai yn gyson am y dref honno ar lan y Menai. Yr oedd pawb a ddeuai o’r dref ar bedestal, ac un o’r rhai olaf iddi ei gweld oedd y Parchedig Marcus Robinson, Bethel. Yr oedd ei deulu yn byw drws nesaf i’w rhieni, a gofidiai Marcus na fedrai fod yn bresennol heddiw. Cofiaf yn dda ei mam, Mrs Jackson, gwraig graff ac yn llawn arabedd a gwreiddioldeb.**

**Yr oedd Caernarfon yn ei phlentyndod yn gadarnle y Presbyteriaid Cymraeg gyda chapeli Engedi, Siloh, Moriah, Beulah a’r Capel Castle Square yn golygu fod pum gweinidog o’r un enwad yn gwasanaethu’r canolfannau. Byddai’r gweinidogion hyn yn aros am flynyddoedd a bu y Parchedig William Morris, y bardd, yn gefnogol iawn iddi hi a’i theulu. Cafodd pob cyfleustra yn yr ysgol elfennol ac yna i fynychu Ysgol Syr Hugh Owen a phenderfynu ar yrfa fel athrawes. Ac yn wahanol i’r mwyafrif o’i chyfoedion, a fyddai’n dewis un o golegau Bangor neu Wrecsam, mentrodd Olwen Jackson ar Goleg Hyfforddi Hull, lle y gwnaeth lu o ffrindiau a fu’n driw i’w gilydd ar hyd y blynyddoedd. Merched o Dde Cymru oedd y rhain, at ei gilydd, a byddent yn cysylltu yn cyson â’i gilydd trwy lythyr a ffôn ar hyd y blynyddoedd.**

**Fel llawer o Gymry eraill fe ddaeth yn athrawes i Lerpwl ac ymuno gyda’r cymdeithasau a’r capeli, Cymdeithas Cymry Fydd a Chapel Bethlehem Road lle y cyfarfu ag un a fagwyd yn y capel, Goronwy Jones. Yr oedd ef yn hannu o deulu nodedig yn y capel, ac o’r bartneriaeth honno, y cawsom hyfrydwch yr aelwyd a fagodd ddau o blant, y ferch Dilys a’r mab Richard, y ddau yn gannwyll ei llygad. Pan yn byw yn Anfield, yn Feltwell Street, yr oeddent yn gymdogion i Gwerful a Gwilym Jones, Gwyn a Huw, a’r cartref o fewn dwy stryd i gapel Douglas Road lle y ceid gweithgarwch Sul a noson waith. Penderfynwyd symud yn 1968 i Cleveley Park yn Allerton ond daliwyd i gadw perthynas â Douglas Road hyd y datgorffori yn 1974. Cawsom yr hyfrydwch o groesawu Goronwy a Olwen i’n cymdeithas. Daliai ef i hiraethu ar ôl Capel Bethehem, nid oedd capel tebyg iddo, ond iddi hi yr un efengyl a geid yn Douglas Road, fel ag yn Heathfield Road.**

**Ymaflodd i holl weithgarwch yr eglwys, a daeth yn hynod o gefnogol a pharod ei chefnogaeth. Bu yn aelod o Bywllgor Gwaith Cymdeithas y Chwiorydd a fyddai’n trefnu bob blwyddyn Ffair Nadolig ac yn llwyddo i godi swm sylweddol. O’r aelodau y Pwyllgor hi oedd yr olaf ond dwy ohonynt. Meddai ar ddidwylledd a ysbryd calonogol. Yr oedd ei chwerthiniad fel potel o ffisig y meddyg.**

**Bu Goronwy yn symol ei iechyd am gyfnod hir a gofalodd yn garedig amdano. Bu ef farw ar Mehefin 1991 ond gwynebodd ar fyd gwahanol gyda ffydd a gobaith. Yr oedd ei wyrion a’i wyresau yn dod a chysur mawr iddi a byddai’n falch o fedru dangos ei lluniau. Soniai yn gyson am Sian, Philip, Helen, Bethan a Gareth. Ac yn y blynyddoedd diwethaf cawsom ein cyflwyno i’r gorwyrion a wyresau Iwan, Lowri, Megan, Scarlet, Norgan, William a Ellis.**

**Wrth feddwl amdani, daw’r gerdd hon im cof:**

*Syrth y blynyddoedd fel dail i’r llawr,*
*Ac eto ’dyw’r goeden yn newid fawr.*

*Felly hithau, hyd dechrau 2017.*

*Dim ond ychwanegu bob blwyddyn wen*
*Gylch o brofiad am ruddin y pren*
*A’n gadael yno’n dystiolaeth im*
*Nad ydwyf yn newid odid ddim*
*Ac eto mae’r cylch diwethaf a roed*
*Yn gylch am bob profiad a gafwyd erioed.*

**Daeth cynulleidfa gref ynghyd i Gapel Bethel, Auckland Road ar fore Mawrth, 17 Hydref i wasanaeth o ddiolchgarwch am ei bywyd a’i gwaith. Canwyd un o’i hoff emynau ‘Mi glywaf dyner lais’ a gwasanaethwyd wrth yr offeryn gan Mrs Margaret Anwyl Williams. O Bethel aed i Amlosgfa Springwood a bwriedir gosod yr hyn sy’n farwol yn naear mynwent Caeathro yn Arfon. Braint oedd ei chael yn ein Bethel.**

**D. Ben Rees**

---




**CLUSTFFONAU AR GOLL**

*Annwyl Dr. Rees*

Yn anffodus, cefais wybod gan yr ysgol ym Mhenbedw na chafwyd hyd i’r ddau glustffon a aeth ar goll ar ddiwedd Gŵyl Hedd Wyn. O’m profiad yn y gorffennol, mae’n bosib bod pobl wedi eu rhoi yn eu pocedi neu eu bagiau allan o'r ffordd ac wedi anghofio amdanynt. Er bod labeli gyda ’nghyfeiriad ar bob un, mae’n bosib nad ydy pobl yn sylweddoli eu gwerth ac felly heb fynd i’r drafferth o’u dychwelyd.

A ellir anfon e-bost at o leiaf rhai o’r bobl oedd yn yr Ŵyl yn holi am y clustffonau? Os na fyddant yn ymddangos bydd yn costio £230 imi brynu rhai yn eu lle.

*Cofion gorau*
*Dr Siôn Aled Owen*
*Gwasanaethau Iaith Geirda Language Services 07901 653501*

*Isleworth, Middlesex, TW7 7NW*

**Gweld yr Ysgwrn**

*Annwyl Dr. D. Ben Rees*

Yr wyf newydd gwblhau taith gerdded o Lundain i’r Ysgwrn, cartref Hedd Wyn. Dyma blog sy’n dweud manylion y daith, *https://sites.google.com/view/inthefootsteps/cymraeg*

Ar ddiwedd y daith cefais fy ysbrydoli i ysgrifennu cerdd yn Gymraeg, *Dau lwybr, un galon*, er nad wyf erioed wedi ysgrifennu unrhyw o’r blaen, am y profiad. Tynnwyd fy ngwraig sylw bod cystadleuaeth farddoniaeth Gadair Ddu ac y dylwn gynnwys y gwaith, ond sylweddolaf fy mod yn rhy hwyr.

Garw hynny ond braf oedd cael gweld Yr Ysgwrn.

*Cofion cywir,*
*Gwynedd Jones*

*Gateacre, Lerpwl*

*Annwyl Dr. Ben*

Diolch am eich llyfr godidog am hanes Cledwyn Hughes; yn ddiamau yn ŵr bonheddig, dawnus, a hyfryd ei gymeriad. Fel yn eich llyfr am hanes Jim Griffiths, mae’r manylion, a’r mân bethau, yn ddrychynllyd.

Roeddwn yn gwybod ychydig bach am Cledwyn.Wedi i ffrind agos imi ymddeol, aeth i fyw drws nesaf iddo. Dim ond geiriau da gefais bob tro pan yn siarad amdano.

O’ch gweld o’r blaen, rym wedi colli ffrind agos, yn Alan Morris, Caer. Roeddwn ein dau wedi adnabod ein gilydd o 1951, fel aelodau o gôr y Cymrig; dros hanner cant ohonom, ac ymhlith yr enwau mawr ddaeth i ganu gyda ni yn Neuadd Central Hall oedd un gŵr arbennig David Lloyd. Ie, Alan, dyma beth oedd cyfaill da, yn foneddigaidd drwyddo, ac yn Gymro i waelod ei galon.

*Cofion cynhesaf,*
*Ken Williams*

# Colofn y Myfyrwyr

## DILYN CYMRU MEWN GEMAU PEL-DROED

**gan Rhodri Gruffudd Jones o Brifysgol John Moores, Lerpwl**

Mae bod yn rhan o'r Wal Goch wedi cynnig profiadau difyr i mi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Trafaeliais i lefydd faswn i byth wedi meddwl mynd iddynt cyn yr ymgyrch yma. Roeddwn yn ddigon ffodus i gael gwylio pob gem gartref yn ogystal â phedair allan o'r pum gêm oddi-gartref.

Cychwynnodd y daith yng Nghaerdydd gyda buddugoliaeth 4-0 yn erbyn Moldova, cychwyn gwych! Ymlaen wedyn a ni i Fienna, lle ergydiodd Joe Allen yn wych am y gôl gyntaf. Gorffennodd y gêm yn gyfartal, 2-2. Pwynt pwysig iawn i'r Cymry.

Yn syth wedyn daeth un o'r gemau ffwtbol mwyaf siomedig yr ymgyrch, Georgia gartref. Yn gyfartal orffennodd hi, gyda Gareth Bale yn agor y sgorio i Gymru ar ôl cwta deng munud. Ond, roeddem ni yn ffodus iawn mai dim ond un gôl lwyddon nhw i sgorio, gyda Georgia yn bygwth ac ar y droed flaen yn yr ugain munud diwethaf.

Mewn modd tebyg daeth y gêm gartref yn erbyn Serbia. Cyfartal oedd y sgôr ar ddiwedd hon hefyd, gyda Aleksandar Mitrovic yn gwneud hi'n gyfartal yn hwyr, ar ôl i Gareth Bale sgorio ei bedwerydd o'r ymgyrch arbennig am le yng nghystadleuaeth Cwpan y Byd..

Yn fuan daeth taith i Ddulyn ym mis Mawrth, gêm gystadleuol a chorfforol iawn. Gwelsom Neil Taylor yn cael ei yrru oddi ar y cae am dacl ofnadwy ar Seamus Coleman. Ni lwyddwyd i agor y llwyrglo ac fe orffennodd hi yn gêm gyfartal 0-0 oedd felly'n ein gadael ni fel Cymry efo popeth i'w chwarae amdano ym Melgrade.

Yn sicr roedd y trip i Belgrade yn un o'r rhai gorau o'r ymgyrch. Miloedd o gefnogwyr tîm Cymru tywydd braf a chwrw rhad! Y sgôr yn 1-1, oddi-gartref yn erbyn y tîm a oedd ar frig y grŵp, doedd dim modd cwyno am y canlyniad yma. Ond wedyn roedd rhaid curo'r pedair gêm olaf i gael unrhyw siawns o gyrraedd Rwsia yn 2018.

Roedd rhaid cael perfformiad gwych ym mhob gêm i sicrhau ein lle yng nghystadleuaeth Cwpan y Byd a doedd y posibilrwydd o hynny'n digwydd ddim yn edrych yn ddisglair, tan saithdeg pedwar munud fewn i'r gêm daeth Ben Woodburn o dîm pêldroed Lerpwl allan o unlle i sgorio ei gol rhyngwladol gyntaf. Trwy hynny enillwyd y gêm yn erbyn Awstria. Gêm i'w chofio iddo yn sicr!

Gadawyd pethau yn hwyr yn erbyn Moldova oddi-gartref, gyda Hal Robson-Kanu yn penio traws gic gan Ben Woodburn gyda deng munud i fynd. 2-0 yn Chisinau yn sicrhau dwy gêm nerfus i orffen. Hwn oedd yr unig gêm a fethais fynd iddi drwy'r ymgyrch.

Tom Lawrence oedd ein seren yn Tbilisi gydag unig gôl y gêm. Gêm ofnus ac llawn tensiwn i filoedd o gefnogwyr a oedd yno yn ogystal â'r cefnogwyr a oedd yn gwylio hi adref. Rhaid rhoi clod i Georgia, roedd Tbilisi yn ddinas wych â'i thrigolion cystal!

Daeth tynged yr holl wlad lawr i'r gêm olaf yma yng Nghaerdydd yn erbyn y dynion mewn gwyrdd, Gweriniaeth Iwerddon. Siomedig oedd y Cymry yn y diwedd wrth i ni golli o 1-0. James McLean yn claddu ein gobeithion a'n breuddwydion, unwaith ac am byth. Doedd y freuddwyd ddim i fod i'w gwireddu i ni mae'n rhaid.

Daeth diwedd i'r daith. Taith llawn emosiynau cymysg. Siomedig gan ein bod heb gyrraedd Rwsia? Yn sicr. Ond mae'n rhaid peidio diystyru faint o falchder mae'r tîm wedi dangos dros y flwyddyn ddiwethaf, na chwaith y balchder a oedd i'w deimlo ym mhob tref a phentref wrth i dîm Cymru gystadlu'n frwd. Cymru fach ar y map diolch i gewri Coleman.




***Rhodri sydd yn y canol***

(Dyma ddechrau cyfres newydd yn yr *Angor* a hen bryd hefyd. Gweno Dafydd o Gymdeithas Gymraeg Myfyrwyr Prifysgolion Lerpwl sydd yn gyfrifol am wahodd y myfyrwyr i ystyried ysgrifennu y golofn hon. Diolchwn iddi hi ac yn arbennig am ysgrif hynod o ddiddorol Rhodri Gruffudd Jones. Nid llenyddiaeth yw ei bwnc ond peirianeg ac y mae ar ei ail flwyddyn. Gobeithio y cawn ysgrif rywbryd eto ganddo cyn iddo orffen ei gwrs yn y Brifysgol. ---------- Golygydd).

***Dymuna Myfyrwyr Cymdeithas Gymraeg Prifysgolion Lerpwl anfon cyfarchion y Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda***



# Nadoligau Lerpwl

## gan D. Ben Rees

Yn y cyfnod 1870 i 1940, adeg penllanw'r Cymry Cymraeg yn Lerpwl, bu'r Nadolig yn Ŵyl hynod o bwysig. Bu'n Ŵyl y gweithgareddau mawr, diwylliant Cymraeg ar ei orau, cychwyniad y cardiau Cymraeg a bwrlwm y croesawu a'r anrhegu. Gofalai siopau mawr y Cymry fel T J Hughes yn London Road, Siop Owen Owen yn Clayton Square ddarparu yn helaeth heb anghofio siop Lewis a gaeodd eu drysau rai blynyddoedd yn ol bellach. Siop yr Iddewon oedd Siop Lewis ond penderfynodd sylfaenydd y siop David Levy newid ei enw i David Lewis er mwyn rhoddi hwb i'r gymuned Gymraeg i feddwl mai un o'u siopau nhw oedd hi! Haedda'r stori honno ymdriniaeth ar wahân ar dudalennau yr *Angor*.

Byddai tymor y Nadolig yn Lerpwl yn dechrau ar ôl Gŵyl Ddiolchgarwch yr Hydref, yn arbennig ym myd llyfrau Cymraeg. Wedi'r cyfan yn oes Fictoria bu gwasg Isaac Foulkes (Llyfrbryf, 1836-1904) yn darparu llyfrau hardd ar gyfer y Nadolig ac yn hysbysebu yn y papur wythnosol, Y Cymro, a gyhoeddid yn Paradise Street. Ar ôl Gwasg Foulkes daeth Gwasg fentrus arall, Gwasg y Brython. Dwy wasg a fu yn flaengar am dros gan mlynedd i baratoi llyfrau i'r Cymry adeg y Nadolig.

Yn Lerpwl yr ymddangosodd cardiau Cymraeg cyntaf erioed a hynny ar gyfer Nadolig 1909. Gelwid hwy yn gyfres y Cambrian a chynlluniwyd hwy yn arbennig ar gyfer y Cymry Cymraeg gan roddi sylw neilltuol i'r arwyddluniau cenedlaethol – y Ddraig Goch, Cenhinen Pedr a'r Cennin. Penderfynodd Hugh Evans, pennaeth Gwasg y Brython ac awdur y clasur Cwm Eithin, yn 1912 gyhoeddi ar raddfa helaethach fyth gardiau Nadolig Cymraeg gyda gwell diwyg na chynt a phob un cerdyn yn unigryw a hardd.

Penderfynwyd hefyd mentro a pharatoi cardiau preifat Nadolig am brisiau derbyniol i'r teuluoedd, cyfoethog, sef rhwng 1/9 a chwe swllt y dwsin. Roedd dosbarth canol y gymuned Gymraeg a phlant y dosbarth hwnnw wrth eu bodd. Argraffwyd y cyfarchion yn ddwyieithog gan fod y drydedd genhedlaeth o blant yr adeiladwyr yn raddol golli eu gafael ar yr iaith oedd yn ffynnu yn y capeli a'r cymdeithasau. Byddai cerdyn dwyieithog yn addas iawn i'r anfon i'w ffrindiau a'u cydweithwyr yn y siopau a'r swyddfeydd. Darparwyd gan Wasg y Brython nifer fawr o flychau swllt yr un ac ynddynt gyfarchion Nadolig Cymraeg ar bapur arbennig wedi ei greu ym melin bapur enwog Afonwen, a saif ar y ffin rhwng Sir Ddinbych a Sir y Fflint.

Teimlai Hugh Evans a'i feibion nad oedd gan unrhyw Gymro na Chymraes esgus o gwbl dros beidio anfon cardiau Nadolig i unrhyw ran o'r byd. Yn wir, darparai'r wasg fountain pen o'r gwneuthuriad gorau am dri swllt a chwpon o'r papur wythnosol, Y Brython, dyfais y Daily Mail ein dyddiau ni, er mwyn denu cwsmeriaid i'r cardiau.

Lluniodd y bardd telynegol R H Jones, Wallasey (a brodor o Uwchaled) bennill ar weithred newydd a phwysig Gwasg y Brython i werin Cymru:

*Dydd da, lythyr gludydd,*
*Mi dy welais o draw*
*Oes cardiau Nadolig*
*I mi yn dy law?*
*Wel, Saesneg yw'r rhain,*
*Cyn amled â'r gwlith,*
*O na, dyma gerdyn*
*Cymraeg yn eu plith.*

Ac yr oedd y diolch am hynny i'r tad a'r meibion a hysbysai ar hyd y degawdau yn niwedd Tachwedd gyda'r pennawd mewn llythrennau bras, Prynwch Lyfr Cymraeg yn Anrheg Eleni. Roedd ganddynt ddwy siop yn gwerthu llyfrau a chardiau Nadolig. Un yn Commerce Court (ger Lord Street) yng nghanol y ddinas a'r llall ger yr argraffdy yn 350-360 Stanley Road, Bootle. Yn y ffenestri hyn ceid cyflenwad o Galendrau Cymraeg (dyfais arall o'i heiddo), cardiau a llyfrau o bob math, yn arbennig nofelau Daniel Owen (oedd yn gwerthu'n dda fel anrheg Nadolig) i lyfrau Meuryn ac E G Breeze a John Pierce ar gyfer y to ifanc oedd yn dal i siarad Cymraeg, y rhai oedd yn llythrennol perthyn i ddau fyd. Yr oeddynt hwy wedi eu magu yn y bwrlwm Cymraeg a phenllanw'r flwyddyn iddynt fel plant oedd Parti Nadolig y Capeli a dyfodiad Siôn Corn. Diflannodd y disgwyliadau hyn. o'n plith ers deg mlynedd pellach, trist yw cofnodi hynny. Ond rhoddid bri mawr hefyd ar gerddoriaeth yn yr wythnosau o flaen yr Ŵyl. Deil Undeb Gorawl Cymry Lerpwl i gynnal Noson o Garolau sydd yn llenwi Neuadd y Philharmonig (deil dwy fil o bobl) ar drothwy Nadolig 2017. Ond yn gynharach yn yr ugeinfed ganrif ceid llu o gyngherddau (o leiaf ugain ohonynt ar gyfartaledd) a pherfformiadau gan y corau a fodolai ar y Glannau, gyda'r uchafbwynt ar nos Nadolig yn un o neuaddau neu gapeli helaethaf Cymry Lerpwl. Ceid cyfle i wrando ar yr anfarwol denor o Gwm Tawe, Ben Davies, Annie Davies-Wynne, y gontralto o Benrhyndeudraeth, Evan Lewis, y tenor a'i wraig, Josephine, contralto o Fangor; Mary King Sarah, soprano o Lanrug; Harri Lewis, tenor; a David Chubb, bâs; a llawer o gantorion gwych eraill y gwelais eu henwau yn yr hysbysebion. Hwy oedd yn cynnal y Nadolig i Gymry Lerpwl a'r adeilad a ddaliai gannoedd yn orlawn. Y bore hwnnw, sef bore'r Ŵyl, byddai oedfaon wedi eu cynnal yn y mwyafrif o'r capeli a'r eglwysi (o leiaf 90 o ganolfannau ar y Glannau) a'r man drefi o amgylch fel Runcorn ac Ellesmere Port.

Ond i lawer un uchafbwynt y Nadolig oedd Eisteddfod Boxing Day yng Nghapel (MC), Woodchurch Road, Penbedw. Deuai'r tyrfaoedd o bob ochr i'r afon Merswy nes gorlenwi'r capeli a'r cystadleuwyr o Fôn i Faldwyn. Gorlenwid yr adeilad nes bod y muriau yn llifo o afonydd chwys y gynulleidfa!

Eisteddfod oedd hon oedd yn parhau am bump i chwe awr solet, a phlant yr alltudion, yn rhyfeddu bob blwyddyn at leisiau cyfoethog y cantorion a chof anhygoel yr adroddwyr o'r 'hen wlad'. Sonia Jennie Thomas, a wnaeth gymwynas fawr â phlant Cymru, amdani hi a'i chwaer Megan, yn rhyfeddu at y wledd. Dyma'i geiriau:

Dyna i chi ddoniau a ddeuai yno i gystadlu. Griff Owen, y tenor, yn canu'r 'Hen Gerddor' nes gwefreiddio'r dyrfa, a D R Jones, y bariton, yn herio pobl Môn yn yr 'Ornest', a'r mymryn papur hwnnw rhwng ei fysedd, a'r ddau wedyn yn sgubo popeth o'u blaenau, gyda'r ddeuawd.

Atyniad mawr yr Eisteddfod i bawb oedd yr arweinydd 'Creigfab', sef y Parch T J Williams, Rock Ferry. Adroddodd Trevor Jones (ewythr Marion Eames) lawer stori wrthyf amdano, ac yn arbennig pan ofynnodd unawdydd am ganiatâd i ganu ynghynt am ei fod eisiau mynd adref hefo'r 'mail'. Wrth gyflwyno ei achos i'r gynulleidfa, dyma Creigfab yn gwneud y sylw gwreiddiol: 'Felly y mae o hyd: rhai eisiau mynd adre, efo'r 'mail' ac eraill efo'r "fe-male"!' Banllefau o gymeradwyaeth haeddiannol iddo gan ei edmygwyr. Dyma'r hiwmor oedd yn plesio yn y dyddiau hynny ynghanol miri a diniweidrwydd Cymry glân gloyw mewn oes llawer mwy hamddenol na'n hoes ni! Ysgrifennodd un a fu ynghanol miri'r Nadolig yn Lerpwl bennill sy'n costrelu llawenydd yr Ŵyl i bob plentyn, ddoe a heddiw:

*Ar ganol bwrdd y parlwr*
*Fe dyf y goeden hardd,*
*Ac arni ffrwyth nas gwelwyd*
*Ar un o brennau'r ardd;*
*Mae yno farch a modur,*
*A chi, a llong, a thrên,*
*A doli fawr las-lygad,*
*Balŵn ac eroplên.*

*Myfyrdod y Nadolig*

# Y gair a wnaethpwyd yn gnawd – (Ioan 1 a 14)

Nadolig Llawen Deuluol a Blwyddyn Newydd Dda bendithiol i chi gyd.

Mae pawb am fynd adref oherwydd fod Nadolig wrth y drws. Mae'r teulu'n glyd ac yn barod i ddathlu a chroesawu'n llawen a chofleidio "diddanwch yr Israel" y baban Iesu fel Meseia i'n byd. Rydym yn mwynhau unwaith eto yr hanes, canu'r carolau a darllen yr Efengyl, ynghyd ag agor presentau a dymuno'n dda i naill a llall ond gobeithio'n wir bod y Meseia wedi dod i berthyn "i'n tŷ ni", fel petai.

Cofiaf un Nadolig cael gwahoddiad i fynd i gapel Seion, Llanfaglan ar lan y Fenai i wrando ar ddarlith-bregeth Parch R.O.G Williams, Rhoslan. Dechreuodd trwy ddweud ei fod pob Nadolig yn ceisio cael syniadau newydd i blant ag oedolion am Ŵyl Y Geni – pos-eiriau, limrigau a'u bath ac wrth gwrs rhaid oedd iddynt fod yn ddiddorol. I ddechrau ysgrifennodd ar ddarn o bapur "Dyma yw'r Nadolig". Dechrau meddwl, wedyn, pam y frawddeg yma? Ai pennill, emyn pregeth neu ail ddechrau? Gadawodd bethau oherwydd roedd rhywun wedi galw. Pan ddaeth yn ôl a gweld y frawddeg doedd dim yn tycio ond mwya' oedd yn syllu'n fyfyriol ar y frawddeg roedd y llythrennau fel petasent yn dawnsio o'u flaen. Edrychai fel petai'r llythrennau eisiau ymwau i wneud gair arall ond roedd y syniad yn hollol di-synnwyr.

Ail ysgrifennodd Robin y frawddeg ar ddarn mwy o bapur a chymeryd y peth fel anagram a dyma ddechrau symud y llythrennau fan hyn a fan draw, croesi hwn a'r llall allan a'u symud. Diwedd y gân ar ôl rhai oriau hir iddo gael yr ateb:

**DYMA YW'R NADOLIG**
**YR YMGNAWDOLIAD**

Wrth ddymuno cyfarchiadau'r tymor fe pwysleisiodd y gair LLAWEN dros yr Ŵyl. Dywedodd ei fod yn air pur ddewisol trwy'r Beibl – "newyddion da o lawenydd mawr". Mae'r Sais yn cawellu'r cyfan *Joy, Delight, Pleasure, Gladness, Ecstaty*. Pa rhyfedd, gyfeillion, nad yw llawenydd yr Wyl yn fflachio fel tinsel. Caiff Niclas y Glais grynhoi'r cyfan:

*A'r swp bach dwyfol yn y gwair yn glyd,*
*Yn llond y nefoedd, llond y byd.*

Yn ogystal a chael y Meseia mae'r Anfeidrol yn Ei fawr drugaredd yn estyn inni tir newydd er yn anadnabyddus, sef blwyddyn newydd sbon ac rydyn am gael mynd yn ein blaenau i gael gafael ohono. Ie, tir newydd yw, yn llawn dyffryndir a mynydd-dir. Yn y dyffryn, bywyd bob dydd yn cael ei fyw. Y mynydd-dir yn grefydd i gyd. Rhaid wrth rhain a beth fydd ein rhan ar hyd y misoedd maith? Oes gobaith am fyd o heddwch? "Yn dy law y mae f'amserau" ac rydw i am wneud beth fyddaf wastad yn ei wneud sef: diolch yn feunyddiol am Ei OFAL drosof mewn gweddi a dweud -BODLON OS CAF YMAFLYD YN DY LAW ac ymddiried YNDDO EF am weddill fy nyddiau.

Blwyddyn Newydd Dda bendithiol i chi gyd.

***ELWYN***

# LLAIS Y LLITHOEDD

'Erioed' sydd cyn y cychwyn
a 'byth' sydd wedi'r terfyn,
a rhwng dau draeth nid ydym ni
ond stori'r un tywodyn.

Rhyw gyfrin 'fyth' yw actau
Y cread fu y dechrau,
O wacter gofod daeth i fod
Gyfamod dyn a'i wreiddiau.

Hwn yw y llais tu cefn i'r llun - Hwn a roes
O'i ras Y GORCHYMYN
(BYDDED!' hed o'i enau'i Hun
ac achos creu y cychwyn.

Brenhinoedd a phroffwydi,
Rhyfela, cyfamodi,
'doethineb dweud' a salmau cân
yn datgan Ei Fawrhydi.

Rhywle – yn nwfn yr arfaeth
roedd ffordd i gael achubiaeth
lle byddai'r Mawredd Mawr ei Hun
yn blentyn proffwydoliaeth.

O'u huffern gwelai'r proffwyd- dywysog
dewisodd i'r aelwyd
'Rhyfelwr - Gynghorwr gwyd
i gofio'r hyn a gafwyd."

Hudol 'rhen dref yn Jwda - hon enwodd
Rhagluniaeth yr Wyrfa,
i hon – doi'r Newyddion Da
Oen addfwyn cyn y lladdfa.

O engan nef daeth Angel i aros
a gwyryf yn dawel,
i hon a'i Saer rhoddwyd sêl
yr achau o'r Goruchel.

Bu galw y bugeiliaid – o ofal
pob dafad rhag bleiddiaid
er nos y rhos – mynd oedd raid
hyd arwr pechaduriaid.

Yn y drin brenhinoedd dri – a seren
yn seirio o'i hynni
ar 'radar' bro'r Mawrhydi
i arwain rhain at grud y Rhi.

Ymhob dechrau mae darfod
ymhob llawenydd – cysgod,
Yng Ngwyl y Gwyliau - Gwyl yr Hedd
roedd cledd y brenin Herod.

Yno'n gêl bu Oesau'r Gair – yn aros
am arwydd, a disglair
rhwng bun gu a'r gwely gwair
hen Newydd fu'n Cyniwair.

Wedi y glec gychwynol
aeth rhod i'w gylch tragwyddol
nes daeth i'w dro Newyddion Da
Y GLORIA - anorchfygol.

Mewn preseb, Mab y Duwdod
Yn Fab y Dyn mewn hanfod,
Troes myth yn wyrth – dyfodiad Un
Gwreiddyn DECHRAU A DARFOD.

***Norman Closs***

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes Newyddiaduriaeth Cymraeg 2017. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

**• RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

**i) Rhifyn Chwefror 2018 –** erbyn bore Llun, 1 Ionawr 2018 – neu ar y we i dbenrees@gmail.com

**ii) Rhifyn Mawrth 2018** erbyn bore Iau, 1 Chwefror 2018 – lluniau, adroddiadau, llythyron, etc. i benatgarthdrive@talktalk. net

**iii) Rhifyn Ebrill 2018 –** erbyn nos Iau, 1 Mawrth 2018 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i Llanuwchllyn am 11.00 ar ddydd Gwener, 2 Mawrth 2018.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

## *Llongyfarchiadau i'r Celtiaid*



***Llongyfarchiadau i Angharad Care, merch Graham a Mallt Walters, Allerton ar ei phriodas i Shannon Eastwood, bargyfreithiwr yn Siambrau Atlantic, Lerpwl ar Fedi 2ail yn Neuadd y Dref. Dymuniadau gorau i'r cwpl / Is fearr leis an lánúin.***

**ATEBION CYSTADLEUAETH Y NADOLIG**

CAROLAU AC EMYNAU Y NADOLIG

1. Hwiangerdd Mair; 2. Awn i Fethlehem; 3. Dawel Nos; 4. Carol y Nadolig; 5. Wele'n Gwawrio.

GWNEUD GEIRIAU

Achwyn, Anwych, awen, chwan, chwyn, enwyn, echwyn, ewyn, llewa, llewych, llyna, llawenychwn, llawen, llawn, llanw, llanwn, llwyn, nawn, newyn, nawell, wyno, ywen

## Cynhadledd y Gymdeithas Deintyddol yn Lerpwl



Mae Lerpwl yn ganolfan sydd yn denu nifer helaeth o gymdeithasau cenedlaethol erbyn hyn. Braf oedd cael croesawu Cymdeithas y Deintyddion ar ddechrau mis Hydref. Sefydlwyd y Gymdeithas ym 1991, gyda'r bwriad i alluogi deintyddion Cymraeg eu hiaith, yn ogystal â dysgwyr yn y maes, drafod materion proffesiynol ymysg ei gilydd yn yr iaith Gymraeg, cyfathrebu'n naturiol gyda'u cleifion yn eu mamiaith, a hefyd – ac roedd hyn cyn bwysiced â dim – cael cyfle i gymdeithasu â'i gilydd yn anffurfiol. Cafwyd nifer o ddarlithiau dros y penwythnos ar bynciau amrywiol e.e. 'Dementia a dannedd'. Edrychwn ymlaen i'w croesawu eto yn y dyfodol agos.

*Yn y llun: Mr William Parry, Llywydd y Gymdeithas; Dr. Rhys Davies, Niwrolegydd o Ysbyty Walton; Dr. John Williams*


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -

CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors® Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

# Cymry Lerpwl yn mwynhau'r daith i'r Ysgwrn

*Lluniau: Dr. John G. Williams*




*Cyrraedd yr Ysgwrn*
*(Gweler yr hanes ar dudalen 3)*



*Y Cymry yn gwrando ar nai Hedd Wyn*

*Trefnydd y daith:*
*NORMA OWEN*

*Eirlys Evans, Mair Roberts a Wenna Evans yn mwynhau Caffi yr Ysgwrn*





*Lluniau y milwyr a gollodd ei bywydau*




*Gerald Williams a Roderick Owen (Arweinydd y fintai)*

**Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

CYMRAEG

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15. Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*